**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

## NEWIDIADAU YNG NGHYFANSODDIADAU AWDURDODAU LLEOL YN DILYN DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

**Diben**

1. Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor a cheisio ei safbwyntiau ar y newidiadau yn strwythurau gwleidyddol prif gynghorau, a gyflwynwyd o dan ddarpariaethau Rhan 2 o Ddeddf Lywodraeth Leol 2000.

**Crynodeb ac Argymhellion**

2. Mae'r Pwyllgor yn cael i wahodd i ystyried cynnwys yr adroddiad hwn. Yn arbennig:

- Cyflwynodd pob un o'r prif gynghorau gynigion ar gyfer eu strwythurau newydd, fel y bo'n ofynnol, erbyn diwedd mis Ionawr 2002.
- Mynegodd 19 o awdurdodau eu bwriad i weithredu modelau ar lun arweinydd a chabinet, gyda'r tri arall - Gwynedd, Merthyr a Phowys - yn dewis rhoi trefniadau eraill ar waith (y Pedwerydd Dewis).
- Ymysg yr awdurdodau a nododd yr hyn a oedd yn well ganddynt (17), ni wnaeth un o'r awdurdodau gynnig dewis gwahanol i hwnnw.
- Rhoddwyd gwybod i 16 o awdurdodau bod eu cynigion yn bodloni'r gofynion statudol yn llawn. Mae angen gwybodaeth ychwanegol gan y 6 arall. Yn achos Conwy, bydd hyn yn golygu rhagor o ymgynghori.

**Amseru**

1. Roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno cynigion ar gyfer trefniadau gwleidyddol newydd erbyn 31 Ionawr 2002. Mae disgwyl iddynt wedyn newid eu cyfansoddiadau i gydfynd â'u strwythurau arfaethedig, mewn pryd i fod ar waith o ddiwedd mis Mai eleni ymlaen. Mae'r pwyllgor wedi bod yn monitro'r broses hon ers 1999.

**Cefndir**

2. Cafodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") ei chyhoeddi ar 28 Gorffennaf 2000, gyda'r rhan fwyaf o'i darpariaethau, gan gynnwys cyfres o is-ddeddfwriaethau'r Cynulliad, yn dod i rym flwyddyn yn ddiweddarach.

Gweithrediaethau

Roedd y Ddeddf yn cyflwyno'r cysyniad o lywodraethu ar lun gweithrediaeth neu gabinet ar gyfer awdurdodau lleol. Cafodd amrywiaeth o wahanol fodelau o weithrediaethau eu cynnig i awdurdodau lleol ddewis rhyngddynt. Sef:

- Maer etholedig a chabinet
- Arweinydd a chabinet wedi'u dewis naill ai gan yr arweinydd neu'r cyngor
- Maer etholedig a rheolwr y cyngor

1. Ym mhob achos, ni all cadeirydd y cyngor na'r is-gadeirydd fod yn aelod o'r weithrediaeth. Uchafswm maint y weithrediaeth, oni bai am y dewis sy'n cynnig "rheolwr y cyngor " yw 10. Nid yw rheolau ar gydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i weithrediaethau.
2. Mae rheoliadau a gyflwynwyd gan y Cynulliad yn nodi swyddogaethau'r cyngor na ddylent neu na allant fod yn swyddogaethau gweithredol. Yr effaith yn y pen draw yw y bydd y rhan fwyaf o'r pwer i wneud penderfyniadau yn nwylo'r weithrediaeth, gyda'r cyngor yn ei gyfanrwydd yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r gyllideb, strategaeth gyffredinol y cyngor a swyddogaethau lled-gyfreithiol fel rheoli a thrwyddedu datblygiadau.
3. Yn eu tro, gall swyddogion gweithredol yr awdurdod lleol ddirprwyo eu pwerau i aelodau unigol o'r weithrediaeth, i is-bwyllgor o aelodau gweithredol neu i swyddog o'r cyngor.
4. Yn ogystal, mae'r Cynulliad wedi cyflwyno rheoliadau sy'n caniatáu i swyddogaethau gweithredol gael eu dirprwyo'n gyfan gwbl i bwyllgorau ardal, cyd-bwyllgorau â chynghorau eraill neu i awdurdod lleol arall (neu'i weithrediaeth). Mae'r Ddeddf yn diffinio pwyllgor ardal fel un sy'n cynnwys dim mwy na 40 y cant o boblogaeth neu ardal yr awdurdod. Mae'n cynnwys yr holl aelodau o fewn ei ardal.

   Trefniadau eraill - Y "Pedwerydd Dewis"

5. Cafodd y Ddeddf ei diwygio ychydig cyn ei darlleniad olaf er mwyn caniatáu i awdurdodau dosbarth bychain yn Lloegr optio allan o'r trefniadau ar sail gweithrediaeth a gweithredu system symlach ar sail pwyllgorau. Rhoddwyd pwer rheoleiddio i'r Cynulliad hefyd er mwyn caniatáu i'r dewis fodoli yng Nghymru. Roedd Cytundeb

Partneriaeth Hydref 2000, a sefydlodd y llywodraeth glymblaid yng Nghymru, yn cynnwys yr addewid y byddai pob awdurdod lleol yng Nghymru'n cael y dewis hwn.

6. Defnyddiodd y Cynulliad ei bwerau rheoleiddio i lunio'r trefniadau gwahanol hyn yn ôl anghenion llywodraeth leol yng Nghymru. Maent yn parhau i roi'r ffocws ar wneud penderfyniadau corfforaethol sy'n addas i bwerau ehangach awdurdod unedol. Maent ar yr un pryd yn mynd i'r afael â rhai o'r anawsterau ymarferol sy'n wynebu awdurdodau sydd â phwyllgorau ardal nad ydynt yn cydfynd â'r diffiniad a roddwyd i'r model ar ffurf gweithrediaeth (gweler para 7), neu awdurdodau sy'n draddodiadol ag arweinyddiaeth annibynnol neu wleidyddol gytbwys nad ydynt cydfynd yn dda â model San Steffan.
7. Roedd rheoliadau'r Cynulliad yn sefydlu Bwrdd y Cyngor, sef pwyllgor gwleidyddol gytbwys o'r cyngor a fyddai'n meddu ar bwerau tebyg iawn i weithrediaeth ond a allai fod rhywfaint yn fwy mewn awdurdodau mwy ac a allai gael ei drechu gan y cyngor llawn ar unrhyw adeg. Byddai Prif Bwyllgor Craffu yn bodoli i oruchwylio'r Bwrdd. Byddai gan y pwyllgor hwn is-bwyllgorau a fyddai'n cynnwys aelodau o'r Bwrdd, i annog trafodaeth ar y cyd ar ddatblygu polisïau a gwasanaethau. Gallai pwyllgorau ardal fod yn llawer mwy hyblyg o ran maint a rhif.

<u>Trosolwg a Chraffu</u>

8. Gan adlewyrchu rôl Pwyllgorau'r Cynulliad i raddau, yn ôl y Ddeddf dylai'r holl awdurdodau sefydlu pwyllgorau trosolwg a chraffu. Mae gan y rhain y pwer i archwilio penderfyniadau'r weithrediaeth neu bwyllgorau'r cyngor yn ofalus, i gyfeirio materion yn ôl i'r cyngor i'w trafod, ac yn fwy cyffredinol i adolygu materion sy'n berthnasol i ardal y cyngor - gan gynnwys y materion hynny sy'n mynd y tu hwnt i swyddogaethau uniongyrchol y weithrediaeth neu'r cyngor (e.e. gofal iechyd neu droseddau).
9. Ni all unrhyw aelod o weithrediaeth fod ar bwyllgor craffu ond gallant gynnwys pobl nad ydynt yn gynghorwyr (na allant bleidleisio, oni bai am gynrychiolwyr yr eglwys neu rieni sy'n lywodraethwyr, ar bwyllgorau craffu addysg). Gall bwyllgorau craffu alw ar aelodau a swyddogion o'r weithrediaeth i fod yn bresennol yn eu cyfarfodydd. Mae'n rhaid iddynt gael cydbwysedd gwleidyddol o ran aelodaeth. Mae canllawiau'r Cynulliad yn argymell bod y cynghorau'n ystyried rhoi safle cadeirydd rhywfaint neu bob un o'r pwyllgorau i aelodau o'r wrthblaid. Mae hefyd yn argymell sefydlu Pwyllgor Archwilio ar wahân, wedi'i gadeirio yn yr un modd gan aelod o'r wrthblaid.

<u>Mynediad i Wybodaeth</u>

10. Mae llawer wedi canmol y Cynulliad am fod ei reoliadau ar fod yn agored yn gliriach na'r rhai yn Lloegr. Yng Nghymru, mae'n rhaid i holl benderfyniadau'r cabinet gael eu gwneud yn gyhoeddus (er y gallant "drin a thrafod" yn breifat). Mae'n rhaid i holl

benderfyniadau gweithrediaeth, hyd yn oed ar ôl eu dirprwyo i unigolion, gael eu cofnodi ynghyd â'r rhesymau sy'n gysylltiedig â'r penderfyniadau hynny a rhaid iddynt fod ar gael i'r cyhoedd.

**Ystyried**

11. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru ers tro bellach wedi bod yn defnyddio'r model cabinet ar sail dros dro, cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Mae hyn wedi ei gwneud yn ofynnol iddynt ddod i gytundeb ar ffyrdd o gadarnhau penderfyniadau'r cabinet, lle nad yw'r cabinet yn wleidyddol gytbwys. Yn gyffredinol maent yn teimlo bod y model hwn wedi gweithio cyn belled ag y mae gwneud penderfyniadau yn y cwestiwn. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn y ffaith fod 15 o awdurdodau wedi mynegi yn eu deunyddiau ymgynghori bod yn well ganddynt y model arweinydd a chabinet. Mynegodd dau awdurdod arall bod yn well ganddynt y pedwerydd dewis, gan adael 5 a wrthododd ddweud beth oedd yn well ganddynt.
12. Roedd yn ofynnol i'r awdurdodau gynnal ymgynghoriad ac yna cyflwyno modelau arfaethedig i'r Cynulliad erbyn diwedd mis Ionawr 2002. Cyflwynodd 19 allan o 22 o awdurdodau gynigion ar gyfer modelau arweinydd a chabinet tra penderfynodd 3 arall ar drefniadau gwahanol. Nid oes un o'r awdurdodau wedi cynnig gweithredu model sy'n wahanol i'r hyn a oedd yn well ganddynt.
13. Rhoddwyd gwybod i 16 awdurdod bod eu cynigion yn bodloni'r gofynion statudol yn llawn. Sef:

Blaenau Gwent

Pen-y-bont ar Ogwr

Caerffili

Sir Gaerfyrddin

Gwynedd

Ynys Môn

Merthyr Tudful

Sir Fynwy

Castell Nedd Port Talbot

Casnewydd

Sir Benfro

Powys

Abertawe

Tor-faen

Bro Morgannwg

Wrecsam

14. Disgwylir am wybodaeth ychwanegol gan 6 cyngor arall. Yn y rhan fwyaf o achosion, gwybodaeth dechnegol yw hon ac mae'n debyg y bydd yr awdurdodau yn gallu bodloni'r gofynion statudol yn hawdd. Yn achos Cyngor Bwrdeistref Cyngor Conwy, fodd bynnag, maent wedi penderfynu cynnal ymgynghoriad pellach ac adolygu ei eu cynigion ar ôl ei gwblhau.
15. Yn dilyn hyn, disgwylir y bydd yr awdurdodau'n mabwysiadu eu cyfansoddiadau a'u strwythurau rheoli gwleidyddol newydd yn ffurfiol erbyn Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol 2002, a gynhelir fel arfer ym mis Mai.

**Cydymffurfio**

16. Mae'r wybodaeth yn y nodiadau cefndir (uchod) yn berthnasol i amrywiaeth o ddarpariaethau o Ran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2002. Mae Adran 25 o Deddf 2000 yn gofyn i gynigion gael eu cyflwyno i'r Cynulliad yn unol â chyfarwyddiadau a gyflwynir o dan is-adran (5). Cafodd canllawiau ar y trefniadau ar gyfer gweithrediaeth eu cyflwyno o dan ddarpariaethau adran 38.

**Man Cyswllt**

17. Cangen Moderneiddio Llywodraeth Leol 2